# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Penny Matthews | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ynghyd â'm cydweithwyr ward, gwnaethom ariannu cyfarpar chwarae a mannau eistedd ym Mharc Briallu a Pharc Heol Las.

Yn ystod y flwyddyn rwyf hefyd wedi siarad ynghylch ceisiadau cynllunio a chefnogi barn preswylwyr am faterion cynllunio.

Es i i gyfarfodydd yng nghanolfannau cymunedol y Trallwn a'r Glais yn fy rôl fel y cynghorydd lleol.
Hefyd es i i gyfarfodydd yr ymddiriedolaeth yn y Glais.

Bues yn diweddaru'r dudalen Facebook, 'Llansamlet Labour News', wnes i greu ar gyfer materion lleol sy'n effeithio ar y gymuned. Hefyd cyfrannais at dudalennau Facebook Gellifedw a'r Glais.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 8 | / | 12 | 67 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 14 | / | 14 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **42** | **/** | **50** | **84** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Roeddwn yn bresennol ym mhob cyfarfod ward a chyfarfod grŵp.

Es i i gyfarfodydd llywodraethwyr yn y Trallwn ac Ysgol Gyfun Gellifedw yn rheolaidd. Roeddwn, bob amser, yn ymdrin â materion wrth iddynt godi, gan ymweld â phreswylwyr lleol yn eu cartrefi'n aml neu ymdrin â materion brys dros y ffôn.

Gweithiais yn agos gyda'r heddlu ynghylch materion a gaodwyd yng nghyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT).

Rwyf wedi ymdrin â nifer o achosion o natur bersonol a sensitif ac wedi cefnogi preswylwyr ynghylch amrywiaeth o faterion.

Rwyf wedi cefnogi'r grŵp Cyfeillion Parc Briallu ac rwyf yn aelod o'r pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi'r grŵp dinasyddion hŷn yng Ngellifedw a Thrallwn, y gymdeithas hanesyddol, y clwb bowls lleol a chlwb pêl-droed y Trallwn.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cefais yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Dinas a Sir Abertawe a'i is-bwyllgor. Mae'n rôl amrywiol sy'n ymdrin â holl faterion trwyddedu ar draws Dinas a Sir Abertawe.

Gan weithio gyda chydweithiwr ward, rydym wedi defnyddio ein cyllideb gymunedol cynghorwyr (lwfans amgylcheddol gynt) i sicrhau y cafodd cyrbau isel angenrheidiol eu gosod yn un ardal o'r ward.

Trefnais i'r holl flychau blodau gael eu gosod ar draws y ward ac rwyf yn bwriadu ehangu'r cynllun y flwyddyn nesaf.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Roeddwn yn bresennol yn y sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol
07/11/2016 - Diogelu
07/07/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'm cydweithwyr ward ac yn gweithredu yn y ward.

Cynheliais gymorthfeydd ward yn y Trallwn a Gellifedw yn rheolaidd ac roeddwn wedi helpu i ddatrys nifer o faterion lleol allweddol.

Es i i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) ar ran preswylwyr, gan ymdrin â nifer o faterion, gan gynnwys tipio anghyfreithlon, sbwriel, tyllau yn y ffordd, parcio, tai ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rwyf yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd y Trallwn ac Ysgol Gyfun Gellifedw.
Mae'r ddwy ysgol wedi penodi pennaeth newydd yn ddiweddar.

Rwyf wedi byw'n lleol ers y 70au ac rwyf wedi gweld yr ardal yn datblygu i fod yn gymuned iach a bywiog heddiw.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 - Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 25.10.17 |